

Cystadleuaeth yr Urdd
407 – Newyddiaduriaeth 16 – 21 oed
Beirniad – Sian Morgan Lloyd

Wrth ddod i'n casgliadau rydym wedi ystyried y meysydd canlynol:

- **Ydy'r ceisiadau yn straeon newyddion am ardal leol?**
- **Cywirdeb ffeithiol a ieithyddol**
- **Cynnwys gwreiddiol a chyfoes**

1af Cwmcafit

Mae'r ymgeisydd yn llwyddo i ddal ein sylw yn ei baragraff agoriadol ac mae'r pwnc yn gweddu'n dda ar gyfer cyfrwng teledu. Mae yna strwythur da i'r gwaith er byddai mwy o wybodaeth am y siaradwyr yn gwella'r darn. Mae olrhain gwaith ymchwil a defnydd da o ffeithiau wedi eu cyflwyno mewn darn gweledol ar gyfer teledu, ond mae angen mwy o dystiolaeth o ymwybyddiaeth yr ymgeisydd o'r cyfrwng – hynny yw beth yw'r lluniau? Beth yw'r linc agoriadol?

Er mwyn cryfhau'r gwaith hoffwn weld mwy o gyfweiliadau yn y darn, er enghraifft gallai'r awdur fod wedi siarad gydag aelodau o'r cyhoedd er mwyn cael ei safbwynt nhw ar y pwnc. Mae lle i wella ar safon iaith a chystrawen ond, ar y cyfan, mae'r ysgrifennu o safon dda.

Teimlwn fod gan yr ymgeisydd potensial i ddatblygu mewn newyddiaduraeth ac felly'n deilwng o'r wobr gyntaf.